24 Gorffennaf 2023

Annwyl: Pob claf sydd wedi cofrestru gyda Meddygfa Cwm Rhymni Practice, Meddygfa Cangen Deri sy'n byw yn y cyfeiriad hwn

**Cais gan Feddygfa Cwm Rhymni i gau Meddygfa Cangen Deri, Deri, Bargod**

Yn dilyn fy ngohebiaeth flaenorol dyddiedig 20fed o Fawrth 2023, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cwblhau'r broses o gau'r feddygfa gangen mewn perthynas â chais Partneriaid Meddygon Teulu Meddygfa Cwm Rhymni Practice i gau eu meddygfa gangen yn Deri, Bargoed.

Bu i’r Panel Cau Meddygfa Gangen ymgynnull ar y 7fed o Fehefin 2023 ac roedd arno gynrychiolaeth o Llais (cyn Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan) a Phwyllgor Meddygol Lleol Gwent. Ystyriodd y Panel yr holl ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgysylltu gan gleifion a phartïon â diddordeb ac adolygodd gais y practis yn ogystal â’r wybodaeth ategol a gyflwynwyd gan y Partneriaid Meddygon Teulu.

Argymhelliad y Panel oedd cefnogi'r cais i gau Meddygfa Gangen Deri. Mae’r cais eisioes wedi cael ei gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol ac y Bwrdd.

Rwy'n sylweddoli y gallai hyn beri gofid i rai cleifion, fodd bynnag, gallaf eich sicrhau fod y penderfyniad hwn wedi'i wneud i sicrhau y gall y practis barhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion ac i gefnogi cynaliadwyedd y practis yn y dyfodol.

Felly, bydd Meddygfa Cangen Deri yn cau ddydd Gwener 20 Hydref 2023. Bydd cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau ar safle Deri ar hyn o bryd yn gallu parhau i ddefnyddio eu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol o'r prif safle yn Rhymni a/neu safle'r gangen yn Nhredegar Newydd ar ôl yr dyddiad hwn.

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth gan y byddwch yn parhau i fod wedi cofrestru gyda Meddygfa Cwm Rhymni Practice. Fel arall, gallwch ddewis cofrestru gyda phractis cyfagos arall os ydych yn dymuno gwneud hynny, ac ar yr amod eich bod yn byw o fewn ffiniau'r practis dan sylw.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Rhif ffôn 01495 241200

Mae manylion practisiau cyfagos ac ymatebion i bryderon a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu wedi'u cynnwys yn y ddogfen amgaeedig o'r enw: **Cau Meddygfa Gangen Deri** - **Cwestiynau Cyffredin.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r tîm Gofal Sylfaenol ar 01495 241282/258/293 neu PrimaryCareDepartment.ABB@wales.nhs.uk.

Yn gywir

Lloyd Hambridge

**Adrannol Dros Dro yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol**
**Cyfarwyddwr Adrannol Dros Dro, Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol**

*Amg:*